Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Glanedyddion (Diogelu) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019** |
| **DYDDIAD** | **15 Chwefror 2019** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau Glanedyddion (Diogelu) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019**

**Y gyfraith sy'n cael ei diwygio**
Mae Rheoliad (EC) Rhif 648/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar lanedyddion (y "Rheoliad Glanedyddion") yn creu rheolau cyffredin er mwyn galluogi gwerthu a defnyddio glanedyddion a gwlychwyr ledled yr UE, ond gan ddarparu lefelau gwarchodaeth uchel i'r amgylchedd ac i iechyd pobl ar yr un pryd. Mae'n pennu bod rhaid i wlychwyr a ddefnyddir mewn glanedyddion fod yn gwbl fioddiraddiadwy ac yn gosod cyfyngiad ar ffosffadau mewn glanedyddion golchi dillad a golchi llestri domestig. Yn ogystal, mae'n rheoleiddio sut y dylid labelu cynhyrchion â gwybodaeth am gynhwysion a dognau er mwyn gwarchod iechyd pobl (ee alergeddau croen) ac osgoi gorddefnyddio glanedyddion.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Nid oes unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

**Diben y diwygiadau**

Mae Rheoliadau 2019 yn gwneud rhai o'r addasiadau sydd eu hangen er mwyn parhau i gymhwyso'r rheolau presennol a nodir mewn cyfraith ar ôl i'r DU Ymadael â'r UE.

Yn benodol, mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth ddiogelu yn y Rheoliad Glanedyddion yn gweithio. Bydd y diwygiadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i gymryd camau cyfyngu brys, dros dro, mewn perthynas â chynnyrch, pan fo arfer y swyddogaeth yn dod o fewn maes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli (o fewn ystyr adrannau 58A(7) ac (8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith y diwygiadau, i'w gweld yma: https://beta.parliament.uk/work-packages/RpoJSgLV

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae’r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i’r DU ymadael â’r UE. Mae hyn yn unol â’r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.